Mehefin 2023

**I: Holl gleifion sydd wedi cofrestru gyda Meddygfa Churchwood, sy'n byw yn y cyfeiriad hwn.**

Annwyl glaf,

Ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd atoch ym mis Ebrill 2023 i roi gwybod i chi fod Partneriaid Meddygon Teulu Meddygfa Churchwood wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd eu bod yn dymuno dod â'u cytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i ben ar y 30ain o Fedi 2023.

Pan fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn cadarnhad y bydd cytundeb yn dod i ben, mae Panel Practis Gwag yn cyfarfod i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall cleifion barhau i gael mynediad at Bractis Meddyg Teulu. Mae cynrychiolaeth o Bwyllgor Meddygol Lleol Gwent a Llais (cyn Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan) ar y panel.

Bu i'r Panel Practis Gwag gwrdd ar yr 20fed o Ebrill 2023, a chytunwyd mai'r opsiwn mwyaf priodol oedd hysbysebu'r practis gyda'r nod o recriwtio gwasanaeth i gymryd lle'r gwasanaeth blaenorol gyda Contractwr Meddyg Teulu.

Rwy'n falch o gadarnhau bod y Bwrdd Iechyd, yn dilyn ymgyrch recriwtio gadarn, wedi llwyddo i benodi partneriaeth newydd o Feddygon Teulu a fydd yn mynd ati i reoli a darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer Meddygfa Churchwood.

Rwyf bellach mewn sefyllfa i gadarnhau y byddwch wedi cofrestru gyda'r bartneriaeth newydd, Dr Allinson a Dr Ahmed ym Meddygfa Churchwood, ar y 1af o Hydref 2023.

**Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth** a byddwch yn parhau i allu cael mynediad at wasanaethau o Feddygfa Churchwood a'r feddygfa gangen yn Goetre.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**

Manylion y practis fydd:

| | |
|---|---|
| Meddygfa Churchwood<br>Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl<br>Clos Afon Llwyd<br>Pont-y-pwl<br>NP4 6DH | Meddygfa Goetre<br>35 Highfield<br>Penperlleni<br>Pont-y-pwl<br>NP4 0BH |
| Rhif ffôn 01495 752444 | Rhif ffôn 01873 880220 |

Rwy'n sylweddoli y gallai'r newyddion yma beri gofid, fodd bynnag, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig gyda Meddygfa Churchwood ar y 1af o Hydref 2023 a byddwch yn parhau i gael mynediad at wasanaethau o'r feddygfa bresennol, sef y cyfeiriad uchod.

Rhwng nawr a'r 30ain o Fedi 2023, bydd Dr Davies a Dr Jeffs yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'r cleifion sydd wedi cofrestru gyda'r practis ac yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r bartneriaeth newydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau ynglŷn â'r canlyniad hwn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241-246/242/282/236.

Yr eiddoch yn gywir,

Lloyd Hambridge
**Cyfarwyddwr Adrannol Dros Dro, Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH
Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**